**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

24 Ionawr 2023

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Annwyl Mark

Diolch am eich gwahoddiad i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i benodiadau cyhoeddus. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi cynnal un gwrandawiad cyn penodi yn ystod tymor y Senedd hon. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhannu ein profiad gyda'ch Pwyllgor.

Ar 30 Medi 2021, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi gyda Dr David Clubb, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr ymgeisydd a ffefrir yn unigolyn addas a phriodol i'w benodi'n Gadeirydd y Comisiwn.

Darparodd Llywodraeth Cymru nodyn i'r Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn: "Nododd ymgyrch recriwtio flaenorol i benodi cadeirydd parhaol, a gynhaliwyd yn hydref 2019, nifer o ymgeiswyr y gellir eu penodi". Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wrth y Pwyllgor na fu proses ymgeisio agored ar gyfer y rôl y tro hwn. Rheswm y Dirprwy Weinidog am hyn yw bod y Comisiwn wedi "colli rhywfaint o fomentwm dros y flwyddyn ddiwethaf", a gallai ymgyrch recriwtio hir "waethygu yr ansicrwydd" ynghylch diben y Comisiwn.

Dylai rolau fel hyn fod yn amodol ar recriwtio agored oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Bydd proses recriwtio agored yn sicrhau bod y gronfa o ymgeiswyr yn cynnwys yr ymgeiswyr gorau o amrywiaeth o gefndiroedd. Pe bai mwy nag un ymgeisydd addas yn cael ei nodi drwy'r ymarfer recriwtio yn 2019, mae'n ansicr pam na chawsant gyfle i wneud cais am y swydd y tro

hwn. At hynny, mae'n bosibl bod nifer o ymgeiswyr eraill y gellir eu penodi wedi dod i'r amlwg yn y ddwy flynedd a aeth heibio ers yr ymarfer recriwtio cychwynnol.

Yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, hysbysodd Dr Clubb y Pwyllgor ei fod eisoes wedi dechrau ar ei ddyletswyddau fel Cadeirydd. Er ein bod yn deall y brys i benodi Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, mae’r ffaith bod y penodiad wedi’i wneud cyn y gwrandawiad cyn penodi yn codi pryderon ynghylch uniondeb y broses.

Byddwn yn hapus i’m swyddogion sy’n cefnogi Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith roi rhagor o fanylion ichi, pe bai angen hynny.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.